| | |
|---|---|
| **Dyddiad creu:** | 18/09/23 |
| **Dyddiad cyhoeddi:** | 25/10/23 |
| **Rhif y fersiwn:** | 1.00 |

| | |
|---|---|
| **Maes Gwasanaeth:** | Gwasanaethau Pobl |
| **Maes Gwaith:** | Adnoddau Dynol |
| **Manylion Cyswllt:** | DatgeluAGwahardd@caerffili.gov.uk |
| **Enw Hysbysiad Preifatrwydd:** | Gwiriadau y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd |
| **Disgrifiad o'r Hysbysiad Preifatrwydd** | Bydd angen i ymgeiswyr/cyflogeion sy'n gwneud cais am wiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, neu sydd eisoes mewn swyddi sy'n gofyn am wiriad, ddarparu manylion i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i'w prosesu. |

# Sut y byddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth

## Ffynhonnell a'r math o wybodaeth sy'n cael ei phrosesu

Bydd yr wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer Gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael ei darparu gan yr ymgeisydd ei hun o ran yr wybodaeth y maen nhw'n ei darparu ar y ffurflen gais a'r dogfennau sydd wedi'u darparu i wirio eu hunaniaeth a'u cyfeiriad.

**Categorïau o ddata personol sy'n cael eu casglu**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi cael y categorïau canlynol o ran eich data personol chi:

- Enw gan gynnwys unrhyw enwau blaenorol
- Cyfeiriad
- Manylion cyswllt
- Dogfennau adnabod, er enghraifft, pasbort, tystysgrif geni, trwydded yrru, tystysgrif mabwysiadu, datganiad banc, datganiad cerdyn credyd, bil treth y Cyngor, llythyr gan un o asiantaethau'r Llywodraeth, ac ati.
- Gwybodaeth ynghylch a oes gan gyflogai/ymgeisydd unrhyw euogfarnau a all eu gwahardd rhag cael eu cyflogi neu barhau i gael eu cyflogi.

**Ffynhonnell y data personol**

Mae'r wybodaeth hon wedi'i rhannu â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gan gyflogeion a gan sefydliad arall fel y nodir isod:

Os na all deiliaid swydd/darpar ddeiliaid swydd ddarparu'r dogfennau adnabod sy'n ofynnol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd er mwyn cynnal y gwiriad, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn defnyddio gwasanaeth gwirio hunaniaeth allanol cymeradwy i wirio hunaniaeth, er mwyn cyflawni gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Ar hyn o bryd, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caint yn cynnal gwiriadau y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

## Eich rhwymedigaethau

**Mae gennych chi rwymedigaeth i ddarparu'r wybodaeth y gofynnir amdani os yw'n ofynnol i gael gwiriad y Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd ar gyfer eich swydd neu'r swydd rydych chi wedi ymgeisio amdani.**

Mae rhwymedigaeth/gofyniad cytundebol arnoch chi i ddarparu'r wybodaeth ofynnol fel y nodir isod:

Mae eich cyflogaeth yn amodol ar dystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd boddhaol mewn cysylltiad â'ch cyflogaeth â phlant a/neu oedolion sy'n agored i niwed. Bydd y dystysgrif yn cael ei hadnewyddu pob 3 blynedd. Gall methu â chydymffurfio â'r gofynion adnewyddu ar ôl 3 blynedd arwain at ganlyniadau i gyflogaeth barhaus cyflogai.

### Canlyniadau peidio â darparu'r wybodaeth ofynnol

Mae'n ofynnol i gyflogeion roi gwybod am unrhyw rybuddion/euogfarnau y maen nhw wedi'u cael yn ystod eu cyflogaeth gyda'r Cyngor a gall methu â gwneud hynny gael ei ystyried fel camymddwyn dan y Weithdrefn Ddisgyblu a gallai camau gael eu cymryd yn eu herbyn.

## Y diben a'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth

### Diben y gwaith prosesu

Mae rhai swyddi o fewn y Cyngor wedi'u dynodi fel rhai sydd â gofyniad statudol am wiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, tra bod y Cyngor wedi penderfynu bod angen gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer rhai swyddi i sicrhau bod deiliaid swydd/darpar ddeiliaid swydd yn addas ar gyfer gweithio gyda phlant neu oedolion sy'n agored i niwed. Mae'r Cyngor hefyd wedi penderfynu y dylai gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gael eu hadnewyddu bob 3 blynedd.

Os na all deiliaid swydd/darpar ddeiliaid swydd ddarparu'r dogfennau adnabod sy'n ofynnol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd er mwyn cynnal gwiriad, bydd y Cyngor yn defnyddio gwasanaeth gwirio hunaniaeth allanol cymeradwy er mwyn gwirio hunaniaeth, er mwyn cyflawni gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

### Sail gyfreithiol ar gyfer y gwaith prosesu

Er mwyn i brosesu data personol fod yn gyfreithlon o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016, mae'n rhaid nodi amod dilys o erthygl 6 o'r Rheoliad, sydd wedi'i amlinellu isod (nid yw'r rhan hon o'r ddogfen ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

Os oes gofyniad statudol ar gyfer gwiriad y Gwasanaeth datgelu a Gwahardd, y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu yw: Erthygl 6 1c. mae prosesu yn angenrheidiol ar gyfer cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol y mae'r rheolwr yn ddarostyngedig iddi. Os yw'r Cyngor wedi penderfynu bod angen gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd neu fod angen ei adnewyddu, y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu yw:

*Article 6 1(c) processing is necessary for compliance with a legal obligation to which the controller is subject;*

Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn darparu diogelwch ychwanegol ar gyfer rhai dosbarthiadau o wybodaeth o'r enw 'data personol categori arbennig'. Os bydd unrhyw wybodaeth yn dod o fewn y diffiniad o ddata personol categori arbennig, yna rhaid nodi amod ychwanegol o erthygl 9 o'r Rheoliad, fel yr amlinellir isod:

*Article 9 2(b) processing is necessary for the purposes of carrying out the obligations and exercising specific rights of the controller or of the data subject in the field of employment and social security and social protection law in so far as it is authorised by domestic law or a collective agreement pursuant to domestic law providing for appropriate safeguards for the fundamental rights and the interests of the data subject;*

Mae deddfwriaeth Diogelu Data hefyd yn darparu amddiffyniad ychwanegol ar gyfer data personol mewn perthynas ag euogfarnau troseddol a throseddau. Os bydd unrhyw ddata personol yn dod o fewn y categori hwn, yna rhaid nodi amod ychwanegol o Erthygl 10 o'r Rheoliadau, fel yr amlinellir isod:

*1(1)This condition is met if—*

*(a) the processing is necessary for the purposes of performing or exercising obligations or rights which are imposed or conferred by law on the controller or the data subject in connection with employment, social security or social protection, and*

*(b)when the processing is carried out, the controller has an appropriate policy document in place (see paragraph 39 in Part 4 of this Schedule).*

## Pwy fydd yn cael mynediad at eich gwybodaeth?

### Manylion y Rheolydd Data a'r Swyddog Diogelu Data

Y Rheolydd Data ar gyfer eich gwybodaeth chi yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Y Swyddog Diogelu Data yw:

Mr Carl Evans
Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol/Swyddog Diogelu Data
E-bost: DiogeluData@caerffili.gov.uk
Ffôn: 01443 864322

Efallai y bydd Rheolyddion Data eraill hefyd yn gyfrifol am eich gwybodaeth, yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r maes gwasanaeth.

### Manylion am brif ddefnyddwyr eich gwybodaeth

- Staff Adnoddau Dynol sy'n rhan o'r broses recriwtio/adnewyddu
- Staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili sy'n ymwneud â phroses y Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd
- Eich rheolwr llinell i benderfynu a ydych chi'n addas ar gyfer cyflogaeth/cyflogaeth barhaus gyda'r Cyngor.

### Manylion am unrhyw achos o rannu'ch gwybodaeth o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Bydd eich manylion personol yn cael eu rhannu gyda'r Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd er mwyn iddyn nhw allu gwneud y gwiriad. Mae copi o'u hysbysiad preifatrwydd ar gael yn:

https://www.gov.uk/government/publications/basic-dbs-check-privacy-policy/polisi-preifatrwydd-ar-gyfer-gwiriadau-sylfaenol.

**Manylion am unrhyw achos o rannu'ch gwybodaeth â sefydliadau eraill**

Os na allwch chi ddarparu'r dogfennau adnabod sy'n ofynnol gan y Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd er mwyn cynnal y gwiriad, bydd y Cyngor yn defnyddio gwasanaeth gwirio hunaniaeth cymeradwy allanol i wirio hunaniaeth, er mwyn parhau â gwiriad y Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd. Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei ddarparu gan Experian. Bydd Experian yn gwirio'r manylion rydych chi'n eu rhoi yn erbyn unrhyw gronfa ddata (cyhoeddus neu fel arall) y mae ganddyn nhw fynediad iddi. Gallan nhw hefyd ddefnyddio'r wybodaeth rydych chi'n ei rhoi yn y dyfodol i gynorthwyo cwmnïau eraill at ddibenion dilysu. Gallwch chi ddod o hyd i gopi o Hysbysiad Preifatrwydd Experian yn: www.experian.co.uk/consumer/privacy.html

**Manylion am unrhyw brosesyddion data allanol**

Mae gwiriadau'r Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd yn cael eu prosesu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caint sy'n froceriaid e-swmp cymeradwy, ar ran Cyngor Bwrdeistref Caerffili.

**Ceisiadau am wybodaeth**

Mae'n bosibl y bydd yr holl wybodaeth sy'n cael ei chadw gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a deddfwriaeth Diogelu Data.

Os bydd yr wybodaeth wedi'i darparu gennych chi yn destun cais o'r fath, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymgynghori â chi ynghylch ei rhyddhau, lle bo hynny'n bosibl. Os byddwch chi'n gwrthwynebu rhyddhau eich gwybodaeth chi, byddwn ni'n cadw'r wybodaeth yn ei hôl, os bydd y ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu i hynny ddigwydd.

## Am ba mor hir y byddwn ni'n cadw eich gwybodaeth?

**Manylion am y cyfnod cadw**

Mae pa mor hir y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cadw gwybodaeth yn cael ei bennu drwy ofynion statudol neu arferion gorau.

Bydd yr wybodaeth sy'n cael ei darparu i gynnal gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a chanlyniad y gwiriad yn cael ei chadw am gyfnod o 6 mis ar y mwyaf.

## Eich hawliau (gan gynnwys y Weithdrefn Gwyno)

**Eich hawliau o dan ddeddfwriaeth Diogelu Data**

Mae'r ddeddfwriaeth Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i destunau'r data (y rheini y mae'r wybodaeth yn sôn amdanyn nhw):

- Hawl i gael mynediad at ddata gan y testun – mae ffurflenni cais ar gyfer y broses hon ar gael ar ein gwefan ni: Ffurflen Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun (SAR)
- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i ddileu
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu

- Yr hawl i wrthwynebu
- Yr hawl i gludadwyedd data
- Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau awtomataidd a phroffilio.

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau ar gael ar y wefan hon: www.ico.org.uk

Er mwyn arfer eich hawliau, cysylltwch â'r maes gwasanaeth sydd wedi'i nodi ar frig y ffurflen hon.

**Y Weithdrefn Gwyno**

Os ydych chi'n anfodlon ar y ffordd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymdrin â'ch cais/gwybodaeth chi, mae gennych chi'r hawl i gwyno. Cysylltwch â'r maes gwasanaeth sydd wedi'i nodi ar frig y ddogfen hon gan amlinellu eich materion.

Os byddwch chi'n parhau'n anfodlonanhapus, mae gennych chi hefyd yr hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Am ragor o wybodaeth am y broses gwyno, dilynwch y ddolen hon.

www.caerffili.gov.uk/My-Council/Data-protection-and-freedom-of-information/Questions-and-complaints?lang=cy-gb

# Crynodeb o'r Hysbysiad Preifatrwydd

## Sut y byddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth

Byddwn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth i wneud penderfyniad ynglŷn â'ch addasrwydd ar gyfer cyflogaeth/parhau mewn cyflogaeth gyda'r cyngor.

Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu yw rhwymedigaeth gyfreithiol, lle mae gofyniad statudol i chi gael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer eich swydd neu lle mae'r Cyngor wedi penderfynu bod angen gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer eich swydd neu ar gyfer adnewyddu. Bydd yr wybodaeth sy'n cael ei darparu i gynnal gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a chanlyniad y gwiriad yn cael ei chadw am uchafswm o 6 mis.

Er mwyn prosesu eich gwiriad Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd, bydd eich gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda'r Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd. Os na allwch chi ddarparu'r dogfennau adnabod sy'n ofynnol gan y Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd er mwyn cynnal y gwiriad, bydd eich gwybodaeth chi'n cael ei rhannu gydag Experian er mwyn gwirio eich hunaniaeth.

Mae gennych chi nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael gafael ar wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi a'r hawl i gwyno os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu.

I gael rhagor o wybodaeth am sut rydyn ni'n prosesu'ch gwybodaeth a'ch hawliau, cliciwch ar y ddolen ganlynol: